**Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar ddydd Mercher, Chwefror 23ain, 2022 am 6.30 yh.**

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | I. Rh. Llewelyn | Mrs S. E. Thomas | P. H. Roberts |
| | R. A Davies | D. Hopkins | Mrs Ll. Hindley |
| | Mrs K. D. L. Davies | B. Rees | A. W Jones |
| | Mrs C. Thomas | D. Nicholas | |

**Ymddiheuriadau**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Mrs Ll. Latham | A. J. Evans | Mrs A. Evans |
| | E. W. Nicholas | C. J Harris | |

**1050.**

**DATGANIADAU O FUDDIANT**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant

**1051.**

**COFNODION**

Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 26ain, 2021.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ionawr 26ain, 2021.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar Chwefror 1af, 2022

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd ar Chwefror 1af, 2022

Gofynnodd y Cadeirydd i'r mynychwyr os oedd unrhyw fater i'w godi, a **phenderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnodion cywir. **Penderfynwyd** hefyd gadarnhau argymhellion y Pwyllgorau.

**1052.**

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Ionawr 26ain, 2022

i) Cofnod rhif 1031 – Gŵyl y Banc ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant - Derbyniwyd ymateb oddiwrth Wendy Walters, Prif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin, yn hysbysu'r aelodau os yw Cyngor Sir Caerfyrddin am ystyried caniatau gŵyl y banc i'w staff ar Ddydd Gŵyl Dewi, bydd rhaid i'r Cyngor lobïo'r Cynghorwyr Sir lleol i weld os y byddant yn fodlon cyflwyno cynnig i gynnal trafodaeth gerbron y Cyngor Llawn. Roedd y Cynghorwyr Sir a oedd yn bresennol yn y cyfarfod wedi cytuno y byddant yn trafod y mater gyda'i grwpiau pleidiol ar lefel Sirol.

Hyd yn hyn, ni dderbyniwyd ymateb oddiwrth y Senedd neu Lywodraeth y DU.

**GOHEBIAETH**

**1053.**

**Adroddiadau'r Heddlu**

Cadeirydd

Derbyniwyd yr adroddiadau trosedd canlynol ar gyfer Rhagfyr, Ionawr a Chwefror 2022 hyd yn hyn.

| **Llandybïe** | **Rhagfyr** | **Ionawr** | **Chwefror** |
|---|---|---|---|
| Difrod troseddol | 1 | 2 | |
| Ymysod | 3 | 1 | 2 |
| Ymosod ar yr heddlu | 1 | | |
| Troseddau'n ymwneud â chyffuriau | 1 | | |
| Ci peryglus | 1 | | |
| Aflonyddu | 1 | 5 | 1 |
| Cyfathrebu maleisus | 1 | 4 | |
| Troseddau lladrata | | 2 | 1 |
| Torri Gorchymyn | 1 | | |
| Llosgi bwriadol | | 1 | |
| Stelcio | | | 1 |
| Troseddau'n ymwneud â'r cartref | | 1 | |
| Arall | 2 | 1 | |

| **Saron (gan gynnwys Capel Hendre a Phenybanc)** | **Rhagfyr** | **Ionawr** | **Chwefror** |
|---|---|---|---|
| Peryglu defnyddwyr y briffordd | 1 | | |
| Lladrad | 2 | 1 | |
| Difrod troseddol | | 4 | |
| Ymosod | 4 | 9 | 2 |
| Bwrglera | | | 1 |
| Cyfathrebu maleisus | 2 | 2 | 1 |
| Troseddau'n ymwneud â chyffuriau | | 1 | |
| Aflonyddu | 3 | 3 | 2 |
| Mynd â cherbyd heb ganiatâd | | | 1 |
| Y drefn gyhoeddus | | | |
| Blacmel | | 1 | |
| Stelcio | | 2 | 1 |
| Arall | 2 | 1 | |

| **Penygroes** | **Rhagfyr** | **Ionawr** | **Chwefror** |
|---|---|---|---|
| Bwrglera | | 1 | |
| Difrod troseddol | 1 | | |
| Ymosod | 10 | 1 | 1 |
| Lladrad | 1 | 1 | |
| Cyfathrebu maleisus | 1 | 1 | |
| Aflonyddu | 1 | | 2 |
| Arall | 1 | | |

Mae dyddiadau ac amserau cyfarfodydd arlein PACT misol Tîm Plismona yn y Gymdogaeth Rhydaman ar gyfer 2022 wedi'u hanfon at y Cynghorwyr, gyda gwahoddiad agored i bawb fynychu.

Cadeirydd

**1054.**

**Clwb Pêl-droed Iau Saron**

a) **Penderfynwyd** cymeradwyo cais Clwb Pêl-droed Iau Saron i osod diffibrilydd ar y pafiliwn ym mharc Saron.

b) Hefyd **penderfynwyd** rhoi caniatâd iddynt gynnal gŵyl bêl-droed yn y parc yn ystod yr haf.

**1055.**

**Gwahardd aros yn Heol y Bryn ac Heol Waterloo, Penygroes**

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyhoeddi hysbyseb o gynnig drafft yn gwahardd aros ar unrhyw adeg ger cyffordd Heol y Bryn ac Heol Waterloo, Penygroes. Bydd y gwaharddiad yn ymestyn am 5 metr ar hyd Heol y Bryn, a 10 metr mewn cyfeiriad deheuol a 25 metr mewn cyfeiriad gogleddol ar hyd Heol Waterloo.
Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r gorchymyn arfaethedig.

**1056.**

**GILFACH IAGO**

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach ynghylch y mater oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin.

**1057.**

**ADRODDIAD Y CLERC**

**a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

**(i) Contractau cynnal a chadw blynyddol – y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Roedd dogfennau tendro wedi'u paratoi i'w hanfon at bump contractwr yn gwahodd dyfynbrisiau am lanhau a thocio'r amrywiol hawliau tramwy cyhoeddus yn y Gymuned. Rhaid i'r contractwyr ddychwelyd y dogfennau ar, neu cyn, canol dydd ar Ebrill 17eg, 2022.

Bydd y tendrau a ddychwelir yn cael eu hagor gan y Cadeirydd, y Swyddog Gweinyddol a'r Clerc ac yn cael eu cymeradwyo i'w derbyn fel bod modd cychwyn ar y gwaith yn ystod mis Mehefin 2022.

ii) Roedd y Cynghorydd Mrs S. E. Thomas wedi hysbysu'r Aelodau bod grŵp cerdded newydd wedi'i ffurfio ym mhafiliwn Penygroes. Roedd y grŵp wedi cytuno darparu adborth i'r Cyngor os roedd y llwybrau troed lleol yn achos pryder, ac wedi gofyn am fapiau papur i'w helpu nhw adnabod y llwybrau troed sydd yn agored. Argymhellwyd y dylid eu cyfeirio at wefan Cyngor Sir Caerfyrddin, gan y byddai hwn yn cynnig iddynt ddarlun llawer mwy cyfoes o'r llwybrau troed sydd ar agor.

__________________________
Cadeirydd

iii) Roedd y Cynghorydd Mrs C. Thomas wedi mynegi ei chonsyrn bod y llwybrau troed ar hyd Heol Cwmfferws yn cael eu defnyddio fel llwybrau ceffyl ac, o ganlyniad, bod wyneb y llwybrau yn cael eu ddifrodi gan garnau'r ceffylau. Gofynnwyd bod y Clerc yn hysbysu Cyngor Sir Caerfyrddin o'r mater, ac yn gofyn am arweiniad ynghylch awgrymiadau posibl i leddfu ar y broblem.

**b) Parciau**

**i) Cytundebau lefel Gwasanaeth 2021/2022**

Derbyniwyd anfonebau am £18945.50 a £6860.50 oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin am y Cytundebau Lefel Gwasanaeth y cytunwyd arnynt drwy dendr yn Chwefror 2021 am gasglu sbwriel, torri'r glaswellt, gwaith cynnal a chadw cyffredinol yn y parciau a gwaith cynnal a chadw'r grîn bowlio yn yr unarddeg parc sy'n cael eu cynnal a chadw ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd** talu'r ddwy eitem.

ii) Roedd yr holl barciau wedi goroesi'r tywydd garw diweddar yn rhyfedd o dda, gan fod angen ond amnewid un arwydd ac ysgubo brigau oddiar wyneb yr ardaloedd chwarae. Roedd y Clerc wedi trefnu bod Mr P Bishop yn gwneud y gwaith.

**c) Mainc ochr ffordd newydd yng Nghapel Hendre**

Prynwyd mainc polyfwrdd newydd oddiwrth gwmni Seatmaster Ltd., am bris o £557.50 gan gynnwys cludiant a TAW, i'w gosod yn lle'r sedd a ddifrodwyd yn Heol Lotwen, Capel Hendre. Roedd y Clerc wedi trefnu bod R Gleaves, Bonllwyn, yn tynnu'r hen sedd i ffwrdd ac yn gosod y sedd newydd yn ei lle.

**Penderfynwyd** talu am yr eitemau.

**ch) Dyfynbrisiau am Arolygu'r Coed**

Gofynnwyd i bump contractwr ddarparu dyfynbrisiau am arolygon o'r coed yn yr unarddeg parc. Cynigir y contract am gyfnod o dair blynedd, a gofynnwyd am gyngor oddiwrth Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch y cymwysterau y dylai'r contractwr a benodir feddu arnynt. Bydd angen derbyn yr ymatebion erbyn Mawrth 18fed, 2022, a rhaid cwrdd â'r gofynion canlynol:-

1. Plygell rheoli diogelwch coed perthnasol, yn cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol
2. Atodlen Arolygu Coed ar gyfer pob safle, gan gynnwys argymhellion ynghylch rheoli risg coed ar lefel derbyniol
3. Cynllun Lleoliad pob Coeden ar gyfer pob safle
4. Cyngor parhaus ynghylch rheoli'r coed trwy gydol y cyfnod arolygu
5. Y contract i fod mewn grym am gyfnod o 3 blynedd
6. Yswiriant indemniad proffesiynol gwerth £2M
7. Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o £1M
8. Wedi cyrraedd Safon BS5837

__________________________

Cadeirydd

**1058.**

## MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r biliau

Derbyniwyd yr anfonebau canlynol yn ystod Chwefror 2022 a, gyda chydsyniad y Cadeirydd, eu talu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5753 | I. Ll. Merrills | Amnewid siec rhif 005751 am un a aeth ar goll yn y post | £1050.00 |
| 5754 | EDF | Parc Capel Hendre – Ionawr 2022 | £14.25 |
| 5755 | EDF | Sied Fowlio Llandybïe - Ionawr 2022 | £23.68 |
| 5756 | EDF | MUGA Llandybïe – Ionawr 2022 | £14.25 |
| 5757 | EDF | Pafiliwn Llandybïe – Ionawr 2022 | £30.79 |
| 5758 | EDF | Pafiliwn Saron – Ionawr 2022 | £96.56 |
| 5777 | EDF | Parc Penygroes – Ionawr 2022 | £13.80 |

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5761-5773 | Amrwyiol daledigion | Sieciau Grant – gweler Cofnodion y Cyfarfod Cyllid a gynhaliwyd ar Chwefror 1af, 2022 | |
| 5774 | S Griffith | Cyflog Chwefror 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa | £2298.23 |
| 5775 | R Thomas | Cyflog Chwefror 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa | £667.46 |
| 5776 | Cyllid y Wlad | Chwefror 2022 | £935.17 |
| 5759 | Martin Davies | Cyfieithu Cofnodion y Cyfarfodydd Cyffredin, Cynllunio, Cyllid a Pholisi a'r Polisi Teledu Cylch Cyfyng. | £294.60 |
| 5760 | Streetmaster (South Wales) Ltd | Amnewid mainc ochr ffordd yng Nghapel Hendre | £557.50 |
| 5778 | D J Electrical Ltd | Adroddiad diogelwch 5-mlynedd y Gosodiad Trydanol – Pafiliwn Llandybïe | £288.00 |
| 5779 | Cyngor Sir Caerfyrddin | Cytundeb Lefel Gwasanaeth am gasglu sbwriel, torri'r glaswellt a chynnal a chadw'r parciau, 2021/2022 | £18947.50 |
| 5780 | Cyngor Sir Caerfyrddin | Cytundeb Lefel Gwasanaeth am gynnal a chadw grîn bowlio Llandybïe, 2021/2022 | £6860.50 |
| 5781 | J T Services | Agor a chau'r Cyfleusterau Cyhoeddus yn ystod Chwefror 2022 | £840.00 |
| 5782 | JEMS Environmental Ltd | Hylendid dŵr - Ionawr 2022 | £281.26 |

**Penderfynodd** yr Aelodau i gymeradwyo talu'r cyfrifon hyn, a chymeradwyo, yn ôl-weithredol, y taliadau a awdurdodwyd gan y Cadeirydd.

**(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol – Ebrill 1/4/21 hyd at 31/01/22**

____________________________
Cadeirydd

| **Amcangyfrif 2020/21** | **Gwariant gwirioneddol hyd yn hyn** | |
|---|---|---|
| **£** | **£** | |
| 180,000 | 180,000 | Praesept |
| 150 | 16 | Llog: Lloyds |
| 400 | 201 | Llog: cyfrifon cadw |
| 3000 | 3,000 | Hawliau Tramwy Cyhoeddus |
| | 13,274 | Adran 106 |
| 4700 | 2,350 | Cytundebau llogi |
| | 1,776 | Ad-daliad ardrethi |
| 188,250 | 200,617 | |

| | | |
|---|---|---|
| 45,889 | 42,259 | Staffio |
| 17,650 | 9,778 | Adeiladau |
| 4,750 | 3,032 | Gwasanaethau Swyddfa |
| 3,100 | 270 | Costau'r Aelodau |
| 10,000 | 3,831 | Gwasanaethau a Thanysgrifiadau |
| } 18,000 | 7,080 | Adran 137 |
| | 0 | Taliadau yn unol â phwerau eraill |
| | 850 | Mannau agored cyhoeddus |
| | 2,750 | Neuaddau pentref |
| | 3,200 | Claddfeydd |
| } 10,000 | 6,230 | Hawliau Tramwy – cynnal a chadw |
| | 0 | Hawliau Tramwy - gwelliannau |
| 28,000 | 630 | Torri'r glaswellt/ sbwriel/ cyfleusterau |
| 50,000 | 35,688 | Atgyweirio ac amnewid offer yn y parciau |
| } 8,500 | 0 | Goleuo cyhoeddus - ynni |
| | 0 | Goleuo cyhoeddus - gwelliannau |
| 28,000 | 5,060 | Datblygu Cymunedol |
| 13,000 | 9,175 | Cyfleusterau Cyhoeddus |
| 236,889 | 129,833 | |

Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| | **70,784** | **Balans am y flwyddyn (cyfnod** |
| | 311,004 | d/y |
| 0 | 381,788 | c/y |
| | 375,912 | Arian parod a buddsoddiadau |
| | 5,876 | Dyledwyr |
| | 0 | Credydwyr |
| | 381,788 | |

Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd cwestiynau neu sylwadau.
**Penderfynodd** yr Aelodau gymeradwyo'r cyfrifon fel uchod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

**1059.**

**Adroddiad ynghylch cyllid Adran 106**

Nid oedd unrhyw faterion i'w cofnodi.

**1060.**

**Gwybodaeth ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd**

Roedd y Clerc wedi mynychu, o bell, cynhadledd chwarterol y cynghorau mwy o faint Un Llais Cymru ar Chwefror 16eg, 2022.

**1061. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

**Penderfynodd** yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Fawrth 30ain, 2022.

**1062.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.05 yh.

Cadeirydd